**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**7 TACHWEDD 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mercher, 7 Tachwedd 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox, Jean Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, George Hardcastle, Ray Hughes, Mike Reece a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Glyn Banks (yn lle Paul Shotton a Dave Hughes (yn lle Ted Palmer)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Dennis Hutchinson a Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Helen Brown, Patrick Heesom a Christine Jones yn bresennol fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai; y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau; Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Rheolwr Budd-daliadau; Rheolwr Refeniw; a Rheolwr Gwasanaeth, Cymorth i Gwsmeriaid.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 34. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN

Dywedodd y Cadeirydd y byddai yna newid bychan i drefn y rhaglen i ddwyn ymlaen eitem rhif 5 ar y rhaglen.

## 35. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 36. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Medi a 12 Hydref 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r ddau set o gofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 37. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DDIWYGIO LLES - CYFLWYNO'R CREDYD CYNHWYSOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad yn manylu ar yr effaith o gyflwyno 'gwasanaeth llawn' Credyd Cynhwysol a diwygiadau lles eraill, ynghyd â'r gwaith a wnaed gan y Tîm Ymateb i Ddiwygio Lles i gefnogi'r preswylwyr sydd wedi'u heffeithio yn Sir y Fflint.

Cafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar yr aelwydydd yr effeithir arnynt gan y Rheolwr Budd-Daliadau ym mis Mehefin 2018. Roedd gostyngiad o ran nifer yr aelwydydd a oedd wedi'u heffeithio gan yr uchafswm budd-daliadau is, fodd bynnag, roedd hyn yn dal i fod yn golled sylweddol i'w hincwm cyfunol. O'r 101 o aelwydydd a oedd wedi'u heffeithio, roedd 85 ohonynt yn derbyn cymorth drwy Daliadau Dewisol Tai i wneud newidiadau i reoli eu hincwm yn well. Roedd y mwyafrif o aelwydydd a oedd wedi'u heffeithio gan y cymhorthdal ystafell sbâr yn denantiaid Awdurdod Lleol a oedd ag un ystafell wely wag. Roedd Taliadau Dewisol Tai yn cael eu dyfarnu i denantiaid cymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn lliniaru effaith y cymhorthdal, fodd bynnag, roedd hyn yn datblygu'n ddatrysiad tymor hir oherwydd diffyg argaeledd eiddo llai.

Roedd ystod o gymorth yn cael ei geisio gan gwsmeriaid Credyd Cynhwysol Sir y Fflint a gwelwyd bod niferoedd wedi cynyddu o 337%. Roedd Cefnogaeth â Chymorth Digidol drwy Ganolfannau Sir Y Fflint Yn Cysylltu wedi helpu preswylwyr i reoli eu hawliadau a chysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y galw am Gefnogaeth Cyllidebu Personol wedi arwain at gynnydd mewn cymorthfeydd ar draws y Sir ac roedd yr un tîm hefyd yn darparu cymorth cofleidiol i gyfeirio unigolion at gyngor ariannol arbenigol. Fodd bynnag, treuliwyd llawer iawn o amser yn gwirio neu'n herio cyfrifiadau a arweiniodd at apwyntiadau pellach ac oedi gyda thaliadau. Roedd y newidiadau arfaethedig o ran cyllid ar gyfer Cefnogaeth â Chymorth Digidol a Chefnogaeth Cyllidebu Personol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o fis Ebrill 2019 yn bryder enfawr a'r ansicrwydd o sut y byddai'r cymorth hwnnw yn parhau gyda Chyngor ar Bopeth. Roedd y cymorth cynnar hwn yn hanfodol er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu, ac fe godwyd y risg i'r Cyngor a phreswylwyr ar lefel genedlaethol. Roedd pryderon eraill a ddwysawyd er mwyn eu hystyried yn cynnwys dulliau gwahanol i gael gwared ar enwau ar gyd-denantiaethau a mynd i'r afael â cheisiadau Credyd Cynhwysol a oedd wedi'u hôl-ddyddio.

Mynegodd y Cynghorydd Attridge am ei falchder yn llwyddiant y tîm yn y gwasanaeth a sicrhaodd bod sylwadau yn parhau i gael eu gwneud ar ansicrwydd trefniadau ariannu yn y dyfodol.

Canmolodd y Cynghorydd Dolphin y tîm a dywedodd y dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau gymryd sylw o'r pryderon a godwyd gan y Cyngor o ystyried ei ran yn y cynllun peilot. Wrth ymateb i gwestiynau, eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau, gan fod cyllid Taliadau Dewisol Tai yn gallu cael ei newid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, y bwriad oedd ei ddefnyddio fel datrysiad tymor byr i gefnogi preswylwyr a oedd wedi'u heffeithio gan ddiwygiadau lles (yn ogystal â rhai unigolion nad oedd wedi'u heffeithio). Eglurodd bod yr anawsterau a wynebir wrth geisio tynnu enw oddi ar gyd-denantiaeth tai cymdeithasol wedi'u cyfleu i'r grŵp llywio cenedlaethol a bod hyn, ynghyd ag elfennau Credyd Cynhwysol eraill, yn cael effaith negyddol ar ôl-ddyledion rhent. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr

Gwasanaeth (Cymorth i Gwsmeriaid) yn darparu manylion o ran nifer y tenantiaid sydd wedi'u heffeithio gan y cymhorthdal ystafell sbâr a oedd yn aros i symud i lety llai a oedd mewn galw ar hyn o bryd.

Croesawodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad mawl a'i gyflwyniad gan y swyddog. Wrth ymateb i ymholiad, esboniodd y Rheolwr Budd-Daliadau y cyfrifiad uchafswm budd-daliadau a'i amcan i gyfyngu ar swm y budd-daliadau y gall unigolyn ei hawlio.

Gofynnodd y Cynghorydd Ron Davies am y gost i'r Cyngor, o ran adnoddau ac amser swyddogion, wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol. Eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau y trefniadau ariannu ac fe gytunodd i gysylltu â chydweithwyr o fewn yr Adran Gyllid i ddarparu ffigwr amcangyfrifedig.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm ar y cymorth a oedd yn cael ei roi i breswylwyr. Cynigodd y dylid anfon llythyr ar ran y Pwyllgor at yr Adran Gwaith a Phensiynau i dynnu sylw at y pryderon o ran y diffyg ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig i ariannu grant. Cefnogwyd hyn gan yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r adroddiad a'r gwaith parhaus i reoli'r effeithiau y mae Diwygiadau Lles yn eu cael a bydd yn parhau i'w cael ar aelwydydd mwyaf diamddiffyn Sir y Fflint;

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r newidiadau i drefniadau ariannu grant ar gyfer Cymorth Cynhwysol fel y cyhoeddwyd gan Llywodraeth Ganolog ar 1 Hydref 2018; a

(c) Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau i amlinellu ei bryderon ynglŷn â'r risgiau posibl i'r Cyngor yn dilyn y newidiadau arfaethedig i drefniadau ariannu grant ar gyfer Cymorth Cynhwysol.

## 38. INCWM RHENT TAI

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad diweddaru ar gasgliad incwm rhent a'r effaith ariannol ar ôl-ddyledion rhent o fewn y Cyfrif Refeniw Tai o ganlyniad i ddiwygiadau lles dan arweiniad Llywodraeth y DU, yn enwedig cyflwyniad gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol o fis Ebrill 2017.

Rhoddodd y Rheolwr Refeniw gyflwyniad a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Golwg ar gyd-destun ehangach y diwygiad lles
- Archwilio'r data yn bellach
- Edrych ar faterion llif arian
- Nodi'r sefyllfa bresennol
- Llunio'r ffordd ymlaen – rheoli'r risgiau

Yn ystod y cyflwyniad, cyfeiriwyd at nifer o benawdau allweddol cenedlaethol a oedd yn tynnu sylw at effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent. Roedd cymhariaeth o ffigyrau diwedd blwyddyn yn dangos bod ôl-ddyledion rhent yn dechrau lleihau yn 2016/17 cyn cyflwyniad gwasanaeth llawn

Credyd Cynhwysol ac wrth i'r arenillion rhent gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, roedd ôl-ddyledion rhent hefyd yn dueddol o gynyddu. Er bod y sefyllfa hon yn cael ei rheoli, roedd casglu rhent yn parhau i fod yn her sylweddol. Er mwyn dangos effaith Credyd Cynhwysol ar sefyllfa'r llif arian, rhoddwyd enghraifft o sut y gallai ôl-ddyledion rhent waethygu erbyn wythnos 8 ac ar y pwynt hwnnw gallai'r Cyngor wneud cais i'r Adran Gwaith a Phensiynau am daliadau a reolir. Fodd bynnag, roedd hyn yn cynnwys proses gymhleth ac roedd oedi'n debygol.

Roedd ystod o fesurau wedi'u mabwysiadu i gefnogi tenantiaid, yn benodol tenantiaid diamddiffyn, i reoli'r diwygiadau a mynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent. Roedd dull mwy cadarn ar waith i ymgysylltu â thenantiaid yn gynt er mwyn ceisio deall pam nad oeddent yn talu a'u hannog i reoli eu harian er mwyn atal ôl-ddyledion rhag gwaethygu. Roedd adnoddau ychwanegol ar y Tîm Ymyrraeth Tai wedi helpu 362 o denantiaid i sicrhau bod eu hôl-ddyledion yn gyfredol. Byddai buddsoddi mewn meddalwedd dadansoddi data newydd, a ddefnyddir yn llwyddiannus ar hyn o bryd gan ddarparwyr tai eraill, o gymorth i ragweld achosion risg yn well.

Sicrhaodd y Cynghorydd Attridge bawb o ymrwymiad y Cyngor i ddarparu'r cymorth hwn i denantiaid sydd wir angen help, ond nid oedd y Cyngor am gynnig 'llwybr cyflym' i'r broses adennill i'r unigolion hynny a oedd mewn dyled ond yn gwrthod ymgysylltu. Atgoffodd bawb fod lefelau casgliadau rhent o fudd i'r Cyfrif Refeniw Tai a oedd yn ei dro o gymorth i adeiladu tai newydd.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dolphin, darparodd y Rheolwr Refeniw eglurhad o ran y tîm swyddogion a oedd yn ymdrin ag ôl-ddyledion rhent ac adennill rhai ôl-ddyledion drwy daliadau a reolir dros amser. Cytunodd i ddarparu gwybodaeth ddilynol ar nifer y tenantiaid newydd (yn ystod y 12-18 mis cyntaf o'u tenantiaethau) a oedd mewn dyled.

Atgoffodd y Prif Swyddog bawb o'r gwiriadau a wnaed gan y Tîm Tai wrth ddyrannu eiddo a oedd o gymorth i ganfod tenantiaethau cynaliadwy.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Cymorth i Gwsmeriaid) fod gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol hefyd yn effeithio ar landlordiaid preifat. Roedd yr adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd gan ei thîm i ymgysylltu â thenantiaid yn ystod y camau cynnar o gymorth i unigolion reoli eu tenantiaethau.

Yn dilyn y pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Hardcastle, dywedodd y Rheolwr Refeniw fod y Cyngor wedi gwneud cais am daliadau a reolir ar gyfer oddeutu 71 o achosion a bod y ffigwr hwn yn codi. Cytunodd y Cynghorydd Attridge y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r awgrym o sefydlu Grŵp Gorchwyl i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent.

Yn ystod y drafodaeth, siaradodd y swyddogion am ddyletswydd y Cyngor i atal digartrefedd a rhannu arferion da rhwng awdurdodau cyfagos.

Dosbarthwyd gwybodaeth am lefelau band ôl-ddyledion presennol gyda'r gwerthoedd priodol. Wrth ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Wisinger ar ymdrin â thenantiaid sydd wedi gwrthod cymorth, pwysleisiodd y Cynghorydd Attridge y dull o oddef dim. Dywedodd y Rheolwr Refeniw fod gan fod achos gefndir ac fe allai gynnwys aelwyd â phroblemau cymhleth.

Gofynnodd y Cynghorydd Ron Davies a fyddai modd i sleidiau'r cyflwyniad gael eu rhannu â'r holl Aelodau.

Awgrymodd y Cynghorydd Banks y dylid ceisio taliadau misol yn hytrach nac wythnosol gan yr unigolion hynny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol er mwyn atal ôl-ddyledion rhag gwaethygu. Nododd y Swyddogion ei awgrym i newid enw'r tîm i'r Tîm Ymyrraeth Tai.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf o ran ôl-ddyledion rhent yn 2018-19 yng nghyd-destun rhaglen diwygio lles Llywodraeth y DU;

(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r ymyriadau a'r mesurau newydd a gymerir i wneud y mwyaf o incwm rhent ond sydd hefyd yn cefnogi tenantiaid i gynnal tenantiaethau cynaliadwy; a

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r camau cadarn sydd yn angenrheidiol i adennill ôl-ddyledion gan denantiaid sydd, er gwaethaf yr holl ymyriadau, yn gwneud prin ddim ymdrech i dalu.

## 39. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth ystyried y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol, cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r diweddariad ar Fwrdd NEW Homes tan fis Mawrth 2019 a gohirio'r diweddariad ar y Diwygiad Lles o fis Mawrth.

Awgrymodd y Cynghorydd Dolphin y dylid cynnal gweithdy yn syth cyn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn helpu Aelodau i ddeall agweddau o'r Pwyllgor. Cytunodd y Cynghorydd Attridge y byddai hyn yn cael ei ystyried.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 40. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg ac un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.05pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**